

Beth yr ydym yn ei ddisgwyl gennych chi

Nod staff Caerdydd a'r Fro yw trin pawb yn deg a chyson, a gydag urddas a pharch. Yn gyfnewid am hynny, gobeithiwn y byddwch yn trin ein staff yn yr un modd, gan gynorthwyo i sicrhau ein bod ni gyd yn rhydd o straen a phryder gormodol.

Rydym yn ymdrechu'n barhaus i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Croesawir unrhyw sylwadau, awgrymiadau, cwynion neu bryderon gan gleifion fel adborth gwerthfawr wrth gynnal a gwella ansawdd ein gwasanaeth. Os byddwch yn poeni am unrhyw agwedd ar eich triniaeth, bydd y Nyrs Ardal yn fwy na pharod i drafod y mater gyda chi.

Os nad ydych yn gaeth i'r tŷ, disgwylir i chi fynychu meddygfa eich Meddyg Teulu neu'ch Clinig Iechyd Lleol am driniaeth.

Darparu amgylchedd gweithio diogel

Mae dyletswydd gofal proffesiynol ar nyrsys i gynnal hylendid dwylo er mwyn lleihau'r perygl o heintiad. Pan fydd y nyrsys ardal yn ymweld â'ch cartref bydd angen iddynt olchi eu dwylo cyn ac ar ôl darparu gofal. Anogir chi i gwestiynu'r nyrsys os na fyddant yn cydymffurfio â'r drefn golchi dwylo.

Parchwch y nyrs sy'n gofalu amdanoch. Ni chaiff unrhyw drais corfforol/geiriol neu ymddygiad ymosodol tuag at ein nyrsys ei oddef a gall olygu na fyddwn yn gallu darparu gofal i chi yn eich cartref.

Hefyd, gofynnwn yn gwrtais i chi a/neu'ch gofalcwyr beidio ag ysmegu yn eich cartref pan fydd y nyrs yn darparu gofal.

Er ein bod yn parchu arferion a gwahaniaethau pobl, am resymau iechyd a diogelwch mae angen i nyrsys ardal wisgo esgidiau yn eich cartref.

Os oes gennych unrhyw anifeiliaid anwes, yn arbennig cŵn, a allai fod yn fygythiad a wnewch chi eu cadw dan reolaeth pan fydd y nyrs ardal yn ymweld. Gofynnwn eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel mewn ystafell wahanol yn ystod ymweliad y nyrs am resymau hylendid.

Mae eich Tîm Nyrsio Ardal sy'n gyfrifol am eich gofal wedi ei leoli yn:

Gellir cysylltu â'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal drwy'r GANOLFAN CYFATHREBU 24 awr y dydd ar 029 2044 4501

Noder, os ydych yn ffonio'r rhif ffôn hwn i holi pryd fydd y Nyrsys Ardal yn galw gyda chi, ni fydd y sawl sy'n ateb mewn sefyllfa i gadarnhau union amser eich ymweliad gan y gall hyn ddibynnu ar lwyth achosion y Tîm Nyrsio Ardal.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Gwasanaeth Nyrsio Ardal



TAFLEN GWYBODAETH I GLEIFION

Beth yw'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal?

Mae **Nyrsio Ardal** yn gangen o'r proffesiwn nyrsio sy'n cynnig gwasanaeth gofal iechyd i bobl sydd ddim yn gallu ymweld â meddygfa'r Meddyg Teulu ac sydd angen gofal nyrsio, cyngor a chefnogaeth oherwydd eu bod yn gaeth i'w cartref dros dro neu'n barhaol. Nod y gwasanaeth Nyrsio Ardal yw galluogi pob unigolyn i gynnal ei annibyniaeth eu hun ac i gyflawni hunan ofal.

Mae'r **Tîm Nyrsio Ardal** yn cynnwys nyrsys profiadol sydd ag ystod eang o sgiliau a galluoedd.

Bydd **Nyrsys Ardal** yn gweithio gyda meddygon teulu a'u meddygfeydd a hefyd gyda gweithwyr proffesiynol eraill megis meddygon ysbyty, gweithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd, therapyddion a staff ysbyty.

Tra darperir y rhan fwyaf o'r gofal yng nghartref y claf, bydd Nyrsys Ardal hefyd yn ymweld â Chartrefi Preswyl a gallant gynnal clinigau mewn meddygfeydd a Chanolfannau Iechyd.

Mae'r **Gwasanaeth Nyrsio Ardal** yn darparu gwasanaeth nyrsio 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos. Serch hynny, **nid** gwasanaeth brys ydyw. Os bydd argyfwng, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu/Ambiwlans.

Beth all y Gwasanaeth Nyrsio Ardal ei gynig

Yn dilyn atgyfeiriad gan yr ysbyty, eich Meddyg Teulu neu asiantaeth arall, Bydd Nyrs Ardal yn cynnal asesiad anghenion iechyd gyda chi a'ch gofalwr yn eich cartref i drafod y cymorth sydd ei angen arnoch.

Gall y gwasanaeth y byddwn yn ei ddarparu gynnwys:

- Gofal Clwyfau
- Gofal ar Ddiwedd Oes
- Rheolaeth y bledren neu'r coluddyn
- Gwybodaeth am neu atgyfeiriadau i wasanaeth arall sydd wedi ei leoli yn y gymuned

Beth allwch ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth Nyrsio Ardal

- Gofal wedi ei ddarparu gan dîm nyrsio wedi ei enwi
- Cael eich trin fel unigolyn gyda pharch, preifatrwydd ac urddas
- **Trefnir dyddiad ac amser eich ymweliadau gan y nyrsys ardal yn unol â'ch angen. Gall amser eich ymweliad amrywio o un dydd i'r llall ac er ein bod yn ceisio darparu cysondeb ni ellir gwarantu hyn bob amser.**

Efallai bydd angen i'ch gorchuddion, rhwymau ac ati gael eu rhagnodi gan eich Meddyg Teulu / Nyrs Ardal.

Caiff cofnod cywir o'ch gofal ei gofnodi'n electronig gan ddefnyddio cyfrifiadur symudol bach, yn ogystal â chofnod papur yn y cartref. Weithiau bydd angen rhannu eich gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol iechyd neu Gofal Cymdeithasol eraill ar eich rhan.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â hyn, siaradwch â'r nyrs sy'n gysylltiedig â'ch gofal.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Hosbisau Marie Curie a George Thomas.

A fydddech cystal â nodi nad cyfrifoldeb y Nyrs Ardal yw casglu / dosbarthu presgripsiynau.

Mae gan y **Gwasanaeth Nyrsio Ardal** ychydig o gyfarpar ar gael. Rhaid dychwelyd y cyfarpar hwn pan fydd eich gofal wedi dod i ben. Bydd y Nyrs Ardal sy'n gyfrifol am eich gofal yn trefnu i gasglu'r cyfarpar pan na fydd ei angen mwyach.